# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

**2024 dsc 3**

## RHAN 1

PROSIECTAU SEILWAITH ARWYDDOCAOL

*Trafnidiaeth*

### 9 Cyfnewidfeydd nwyddau rheilffordd

(1) Mae adeiladu cyfnewidfa nwyddau rheilffordd yn brosiect seilwaith arwyddocaol os disgwylir (ar ôl ei hadeiladu) y bodlonir pob un o'r amodau yn is-adrannau (3) i (7) mewn perthynas â hi.

(2) Mae addasu cyfnewidfa nwyddau rheilffordd yn brosiect seilwaith arwyddocaol—

(a) os disgwylir, ar ôl yr addasiad, y bodlonir pob un o'r amodau yn is-adrannau (3)(a) a (4) i (7) mewn perthynas â hi, a

(b) y disgwylir i'r addasiad gael yr effaith a bennir yn is-adran (8).

(3) Rhaid i'r tir y lleolir y gyfnewidfa nwyddau rheilffordd arno—

(a) bod yng Nghymru, a

(b) bod ag arwynebedd o 60 o hectarau o leiaf.

(4) Rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd allu trin—

(a) llwythi o nwyddau oddi wrth fwy nag un traddodwr ac i fwy nag un traddodai, a

(b) o leiaf bedwar trên nwyddau y dydd.

(5) Rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd fod yn rhan o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru.

(6) Rhaid i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd gynnwys warysau y gellir danfon nwyddau iddynt o'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru naill ai yn uniongyrchol neu drwy gyfrwng math arall o drafnidiaeth.

(7) Ni chaiff y gyfnewidfa nwyddau rheilffordd fod yn rhan o sefydliad milwrol.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

(8) Yr effaith y cyfeirir ati yn is-adran (2)(b) yw cynyddu 60 o hectarau o leiaf arwynebedd y tir y lleolir y gyfnewidfa nwyddau rheilffordd arno.

(9) Yn yr adran hon—

ystyr "sefydliad milwrol" ("*military establishment*") yw sefydliad y bwriedir ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr neu at ddibenion Adran yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am amddiffyn;

ystyr "trên nwyddau" ("*goods train*") yw trên (gan ddiystyru unrhyw locomotif) sy'n cynnwys cerbydau rheilffyrdd a gynlluniwyd i gludo nwyddau.

(10) Mae i "cerbydau rheilffyrdd", "rhwydwaith" a "trên" yr un ystyron ag a roddir i "rolling stock", "network" a "train" gan adran 83(1) o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 (p. 43).